

**DARLITH YR EISTEDDFOD 2018**

**THE EISTEDDFOD LECTURE 2018**

**7 Awst / August 7 2018**

**Emyr Lewis**

## **Bydded cyfiawnder! Ffarwél i EnglandandWales**

### *Abstract*

The Cymmrodorion Eisteddfod lecture (the Annual Sir Thomas Parry-Williams Memorial Lecture) for 2018 explores the role of the Commission on Justice in Wales, which is chaired by the former Lord Chief Justice, Lord Thomas of Cwmgiedd. The lecture examines the history and implications of 'the England and Wales jurisdiction', a legal concept which has its origins in the Acts of Union of 1536 and 1543. The central argument of the lecture is that while there are a number of contexts in which the phrase 'England and Wales' – or 'Cymru a Lloegr' in Welsh – might be used, the specific conjunction of the two place names in legal discourse is so distinctive and so significant to the future of Wales, in or out of Europe, that its legal uses might best be signified through a single close compound: 'EnglandandWales'. The lecture argues that the establishment of a Commission on Justice in Wales by a devolved government in Wales has moved us one step closer to resolving this 'anachronistic phenomenon' whereby the only legal jurisdiction which currently operates in Wales – despite the establishment of a Welsh government in Cardiff – is the jurisdiction of 'EnglandandWales', an entity which came into being as a consequence of the infamous Acts of Union.

Diolch yn fawr i'r Cymmrodorion am eu gwahoddiad i draddodi'r ddarlith hon eleni.

Yng nghanol holl sŵn a swae y ddadl am ymadawriad y Deyrnas Gyfunol â'r Gymuned Ewropeaidd, ni roddwyd fawr o sylw gan y wasg a'r cyfryngau i waith na hyd yn oed i fodolaeth y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth y cyn Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd. Nid yw hynny, efallai, yn syndod. Mae ffraeo taer Brexit, wedi'r cyfan, yn gwneud llawer gwell 'stori', ys dywed y golygyddion newyddion, nag yw panel o arbenigwyr ym meysydd cyfiawnder yn trafod manion pwnc sy'n swnio'n sych ar y diawl. Serch hynny, mae creu'r Comisiwn hwn gan Carwyn Jones, cylch gorchwyl eang y Comisiwn ynghyd â chalibr yr unigolion sy'n aelodau ohono yn golygu mai peth gweddus i ni ddinasyddion Cymru yw oedi ychydig er mwyn talu rhywfaint o sylw iddo, ac i'r pynciau y bydd yn ymrafael â nhw.

Un o'r pynciau hynny yw fy nhestun, sef EnglandandWales. Un gair, nid tri, sy'n cyfleu cysyniad penodol iawn ym maes y Gyfraith. Nid yw'n air sy'n bodoli wrth gwrs mewn na

Saesneg na Chymraeg. Mae'r cysyniad y mae'n ei gyfleu yn cael ei fynegi fel arfer mewn tri gair – England and Wales yn Saesneg, neu (fel arfer) Cymru a Lloegr yn y Gymraeg – ond oherwydd bod sawl cyd-destun arall lle bydd yr ymadroddion hynny'n cael eu defnyddio i olygu pob math o wahanol bethau, mae'n haws gen i ddefnyddio'r un gair cyfansawdd EnglandandWales wrth ymdrin â'r ystyr penodol cyfreithiol.

Ystyr cyfreithiol EnglandandWales yw tiriogaeth benodol lle mae un gyfraith benodol, sef cyfraith EnglandandWales, yn bodoli ynddi ac un gyfundrefn o lysoedd yn gweinyddu'r gyfraith honno. Cyfeirir yn aml at y ffactorau hyn fel awdurdodaeth EnglandandWales, *the EnglandandWales jurisdiction*. Er gwaethaf y cwbl sydd wedi digwydd o ran newid trefn llywodraethiant Cymru (ac yn wir Lloegr) yn arbennig ers 1997, mae tiriogaeth EnglandandWales a'i chyfraith benodol yn parhau, fel mater o gyfraith o leiaf, i fodoli, ac mae hynny wedi bod, ac yn parhau i fod, fel carreg yn esgid Cymru.

Nawr mae'r syniad mai'r un gyfraith sydd yn bodoli yng Nghymru ac yn Lloegr yn mynd â ni nôl, fel mae pawb mae'n siŵr yn gwybod, at y deddfau hynny, a wnaed gan frenin Lloegr Harri'r 8fed, yr ydym ni'n eu galw y Deddfau Uno, ac a elwir yn gyffredin yn Saesneg *the Laws in Wales Acts* (neu i roi eu henwau llawn iddynt *the Act for Law and Justice to be Ministered in Wales in like Form in this Realm 1536 a the Act for Certain Ordinances in the King's Dominion and Principality of Wales 1543*).

Mae'r ddwy ddeddf yma wrth gwrs, ac yn arbennig y gyntaf ohonynt, yn chwarae rhan bwysig yn nrama ein chwedloniaeth genedlaethol. Dyma fesurau nad oes ond rhaid eu crybwyll er mwyn ennyn y math o ymateb ag a geir i'r dihiryn Sleiddyn gan gynulleidfa Theatr Felinfach ym mhantomeim blynyddol y sefydliad rhyfeddol hwnnw.

Yn ôl y naratif arferol, drwyddynt, fe unwyd Cymru a Lloegr am byth ac fe ddarparwyd yn gyfan gwbl ddiamwys mai cyfraith Lloegr yn unig fyddai'n weithredol yng Nghymru. Gwnaed Saesneg yn unig iaith gweinyddu cyflawnder, ac fe waharddwyd defnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun hwnnw.

Ar yr olwg gyntaf, yn ôl y chwedl, dyma Gymru yn diflannu fel endid ar wahân ac yn dod yn rhan o Loegr am byth. Mae'r Deddfau Uno yn greiddiol i'n canfyddiad o'r cam a wnaed â ni yn y gorffennol, ac y mae'n rhaid unioni'r cam hwnnw. Bydded cyfiawnder!

Ond mae ffordd arall o edrych arni. Mae'r hanesydd Nia Watcyn Powell o Brifysgol Bangor wrthi'n golygu'r deddfau hyn. Mewn erthygl ar wefan Prifysgol Bangor<sup>1</sup> awgryma fod 'lle i edrych ar y cyfan o'r newydd gan ystyried i ba raddau yr hyrwyddodd y deddfau arwahanrwydd Cymru yn hytrach na'i lesteirio'.

Mae Nia Powell yn nodi, er enghraifft, mai effaith y 'cymal iaith' oedd creu angen am gyfreithwyr a gweinyddwyr dwyieithog. Yn fras, er gwahardd y Gymraeg yn y llysoedd, nid

---

<sup>1</sup> 'Deddfau Uno' 1536-43 a Hunaniaeth Cymru (26ed Mawrth 2018).  
<https://hanescymrubangor.wordpress.com/2018/03/26/deddfau-uno-1536-43-a-hunaniaeth-cymru-gan-nia-powell/>

oedd modd ei gwahardd ymysg eu cwsmeriaid. Roedd angen i bobl broffesiynol fod yn medru deall a siarad y Gymraeg, hyd yn oed os nad oeddent yn cael ei defnyddio yn y llys.

Ond nid mater y Gymraeg yw testun fy mhregeth, felly dyma droi at ddwy agwedd arall ar y Deddfau Uno y mae Nia Powell yn eu crybwyll, sydd hefyd yn rhoi golwg rywfaint yn wahanol ar y chwedl ac sy'n berthnasol i fy nhestun, sef tiriogaeth Cymru a chyfundrefn cyfiawnder Cymru.

Yn y lle cyntaf, mae'n tynnu'n sylw at y ffaith mai yn y deddfau hyn y diffinir tiriogaeth Cymru yn gyfreithiol am y tro cyntaf. Mewn geiriau eraill, yn y weithred o gymathu Cymru a Lloegr, fe ddiffiniwyd Cymru ar yr un pryd. Fel y dywed yr Athro Thomas Glyn Watkin yn ei gyfrol feistrolgar ar hanes cyfreithiol Cymru: 'Wales therefore obtained for the first time a legal definition of its political geography.'<sup>2</sup>

Yn yr ail le, mae Nia Powell yn pwysleisio'r drefn reolaethol a gweinyddol a grewyd gan y deddfau hyn, gan hoelio'i sylw yn arbennig ar yr ail ddeddf, deddf 1543. Mae hon, yn sgil ei bod yn hirach, yn fwy manwl ac yn sychach, wedi bod yn rhy ddiflas i haneswyr dalu cymaint o sylw iddi ag a dalwyd i'w rhagflaenydd. 'Bu'r drefn hon' meddai 'yn wir, yn cynnal hunaniaeth lywodraethol a sefydliadol a fu'n hollbwysig i barhad Cymru. Yn sicr, nid trefn a oedd yn cymathu Cymru â Lloegr oedd hon, ond trefn lle'r oedd gweinyddu yn gyffredinol a gweinyddu'r gyfraith hefyd yn wahanol.' Ar ben hynny, roedd y deddfau uno yn caniatáu gweithredu arferion cyfiawnder Cymreig lle'r oedd hynny 'o les'. Yn ôl ymchwil Nia Powell, dadansoddiad neb llai na guru Cyfraith Gyffredin Lloegr ar y pryd, Edward Coke, oedd bod Cymru yn sefydliadol a chyfreithiol ar wahân i Loegr. Daeth y cymathu gwirioneddol nes ymlaen, ym 1746, yn sgil yr hyn a elwir yn Ddeddf Cymru a Berwick, pan gynhwyswyd Cymru yn y diffiniad statudol o Loegr, darpariaeth a gafodd ei stwffio mewn i ddeddf oedd yn ymwneud gan fwyaf â threth ffenestri. Hyd yn oed wedi hynny, parhaodd y prif sefydliad barnwrol a grëwyd gan y Deddfau Uno, sef Llysoedd y Sesiwn Fawr fel sefydliad neilltuol i Gymru, hyd nes eu diddymu yn 1830.

Felly, o droi nôl at fy nhestun, dyma ddiffinio yn y deddfau uno diriogaeth neilltuol Cymru, a hefyd gyfundrefn neilltuol o lysoedd ac o weinyddu cyfiawnder ar ei chyfer.

Diddymwyd y Deddfau Uno (ac eithrio un adran yn neddf 1543) yn 1993. Nid angladd cyhoeddus crand a gafodd y statudau tyngedfennol hynny, ond claddedigaeth ddistadl yn Atodlen 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Byddai rhywun yn disgwyl y byddai'r fath ddigwyddiad wedi ennyn sylw mawr, boed wylofain neu orfoleddu. Ond nid felly y bu. Ni chawsant eu diddymu er mwyn dad-wneud uniad Cymru a Lloegr, ond am nad oedd mo'u hangen bellach. Serch hynny, mae rhywun yn tybio efallai fod y diweddar Wyn Roberts wedi caniatáu gwên fach ddireidus iddo'i hun am lwyddo i gael y fath ddarpariaeth i mewn i ddeddf Seneddol. Ni pheiodd EnglandandWales yn 1993, gan fod ei momentwm wedi ei chadw i fynd.

---

<sup>2</sup> *The Legal History of Wales* (Caerdydd, 2007), t. 96.

Nid wyf yn hanesydd o fath yn y byd, ac nid wyf am fentro ceisio adeliadu fy mhregeth ar seiliau hanes drwy geisio dadlau bod y gyfundrefn neilltuol a grëwyd i Gymru gan y Deddfau Uno yn cyfiawnhau'r cysyniad o rannu EnglandandWales yn England ac yn Wales heddiw, er bod hynny yn bîn yn swigen y rhai a fydd na fu gan Gymru erioed ei chyfundrefn gyfreithiol ei hun, yn arbennig y rhai hynny sy'n mynnu bod EnglandandWales yn bodoli ers cyn cof.

Nid wyf am wneud hynny am ddau reswm.

Yn y lle cyntaf, er diffinio'r diriogaeth ac er bod y sefydliadau a'r gyfundrefn o weinyddu cyfiawnder wedi bod yn neilltuol i Gymru, cyfraith Loegr a weinyddwyd ynddynt, cyfraith a ailfeddyddiwyd yn ddiweddarach, at rai pwrpasau, yn gyfraith EnglandandWales.

Yn yr ail le, rwy'n rhannu sgeptigiaeth R. T. Jenkins am yr 'Apêl at Hanes' fel modd o gyfiawnhau polisiâu ac agweddau tuag at y byd yr ydym yn byw ynddo heddiw. Ffon ddwybig yw hi bob tro. Wedi'r cyfan, mae hanes amwys a llithrig bodolaeth Cymru fel endid gwleidyddol, heb ei chyfundrefn gyfreithiol ei hun na'i chyfraith ei hun, wedi golygu ei bod hi wedi bod yn bosibl gofyn cwestiynau fel 'When was Wales?', 'Pam na fu Cymru?' ac yn fwyaf sinigaidd a deifiol 'Wales! Wales?'. Rhwng ymgeisio rhamantaidd i ailddyfychmygu Cymru a gwadu ei bod wedi bod erioed, cafwyd pob math o gwestiynu ôl-fodernaidd a phryderu dirfodol amdani. 'A yw Cymru'n bod?' yw'r gri. Cymharwn sefyllfa'r Alban. Mae'n anodd dychmygu, yn ei hachos hi, unrhyw un erioed yn gofyn y cwestiynau uchod. Pe bai rhywun wedi cwestiynu bodolaeth yr Alban yna ni fyddai wedi bod ond angen pwyntio at ei hanes fel gwladwriaeth led fodern cyn ei huno â Lloegr, ac at ei chyfundrefn gyfreithiol neilltuol a barhaodd wedi'r uniad hwnnw.

Ond erbyn heddiw, nid oes modd bod mor ysgafala nac amheus am fodolaeth Cymru. Diolch i ddau refferendwm a sawl Deddf Seneddol, gallwn bwyntio at sefydliadau llywodraethiant sy'n neilltuol Gymreig ac sydd, fel y gwelwn, bellach wedi eu gwreiddio fel rhan o gyfansoddiad y Deyrnas Gyfunol drwy Ddeddf Cymru 2017. Beth bynnag fo ein barn amdanynt, nid oes modd gwadu eu bodolaeth.<sup>3</sup>

Er hyn, mae EnglandandWales yn dal i fod. Mae sawl peth i gyfri am hynny, ond mae'r apêl at hanes – hanner mileniwm o undod cyfreithiol honedig – wedi bod yn elfen ganolog yn y rhethreg o blaid ei chadw i fynd, er bod y gwir gymhellion efallai yn fwy cymhleth, ac yn llai nobl.

Yn yr holl drafodaethau am ddatganoli grymoedd i Gymru, mae'r rheidrwydd i gadw undod cyfreithiol EnglandandWales wedi bod yn fater o ffydd ddiwyro, ffundamentalalaidd i wleidyddion, gweision sifil a chyfreithwyr yn Llundain ac yng Nghymru. Cymerodd undod EnglandandWales arni arlliw ysbrydol bron: gwirionedd absoliwt a thragwyddol nad oes modd ei gwestiynu; llinell goch nad oes modd ei chroesi. Fel hyn mae pethau, fel hyn y bu pethau erioed ac fel hyn fydd pethau am byth. Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd braidd, o ystyried

---

<sup>3</sup> Am grynodeb o hanes y setliad datganoli yng Nghymru gweler Thomas Glyn Watkin a Daniel Greenberg, *Legislating for Wales* (Caerdydd, 2018), tt. 16–25.

bod datganoli wedi dad-wneud, erbyn hyn, undodau eraill yr honnid ar un adeg eu bod yn dragwyddol.

Rhaid wrth linellau cochion mewn bywyd, wrth gwrs, ond gallant fod yn bethau peryglus weithiau. Gallant ddwyn sylw oddi ar yr hyn sydd angen ei wneud er lles, a lle bôn't yn eiddo i'r mwyaf pwerus mewn sefyllfa o anghyfartaledd grym, mae eu heffaith yn medru ystumio trafodaeth a chreu canlyniadau gwyrdröedig.

Yn sicr, dyma yn fy marn i fu effaith sêl y sefydliad Prydeinig dros Egwyddor Fawr EnglandandWales.

Yn y lle cyntaf, mae mynnu parhad EnglandandWales wedi bod yn rheswm dros roi i Gymru setliadau datganoli sydd wedi bod yn sylweddol fwy tila a mwy cymhleth nag a roddwyd i'r Alban ac yn wir mewn sawl ffordd i Ogledd Iwerddon.

Cofiw'n mai corff gweithredol (*executive body*) ac nid corff deddfwriaethol (ac eithrio drwy is-ddeddfau) oedd y Cynulliad Cenedlaethol a grëwyd yn gyntaf dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Yn wahanol i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ni fyddai grym gan y Cynulliad i wneud deddfau fyddai o'r un statws â deddfau San Steffan, sef deddwriaeth 'gynradd' fel y gelwir hi. Ni fyddai gan 'ysgrifenyddion' y Cynulliad a ffurfiai ei 'phwyllgor' yr un statws fel gweinidogion y Goron ag a fyddai gan y gwleidyddion cyfatebol yn yr Alban. A'r prif reswm a roddwyd dros y gwahaniaethau hyn oedd bod gan yr Alban ei chyfraith a'i chyfundrefn gyfreithiol ei hun. Doedd hi ddim, welwch chi, yn rhan o EnglandandWales, felly roedd modd iddi gael deddfwrfa a llywodraeth go iawn. Nid oedd y fath beth yn bosib yn achos Cymru, am ei bod hi'n rhan o EnglandandWales. Y mwyaf y gellid ei wneud oedd rhoi iddi'r pwerau hynny oedd yn cael eu harfer yng Nghymru gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol drwy'r Ysgrifennydd Gwladol, ac oherwydd hynny un corff gweithredol oedd y Cynulliad i fod. Nid oedd gwahaniad cyfreithiol rhwng ei 'llywodraeth' weithredol a'i helpen etholedig, ddemocrataidd.

Oes gymharol fer gafodd y Cynulliad dan y drefn hon. Yn weddol fuan, fe fagodd y sefydliad wahaniad *de facto* rhwng yr elfen ddemocrataidd ar y naill law, a'r elfen lywodaethol ar y llall, gan roi yr enw Llywodraeth Cynulliad Cymru arni, yn ogystal â rhoi'r enw Prif Weinidog a Gweinidogion ar yr 'ysgrifenyddion' bondigrybwyll. Gwnaed hyn i gyd heb fod unrhyw beth yn awdurdodi hynny mewn deddf. Nid oedd dim yn gwahardd hynny chwaith, felly dyma esblygiad naturiol a sbardunwyd gan genhedlaeth o wleidyddion Cymreig yr oedd datganoli wedi eu rhyddhau a'u hymbweru o'r newydd. I gydfynd â hyn trosglwyddwyd mwy a mwy o bwerau newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud deddfau. Nid deddfau cynradd oedd y rhain i fod, ond deddfau eilaidd (*subordinate legislation*), serch hynny, yn y cyfnod hwn fe gynyddodd ehangder a dyfnder cyfrifoldebau deddfu'r Cynulliad 'gweithredol' hwn yn sylweddol.

Yn wyneb y datblygiadau hyn, roedd angen i'r setliad ddal i fyny efo sut yr oedd pethau go iawn. Daeth yn gynyddol amlwg nad oedd modd cynnal y myth o un corff gweithredol yn wyneb y momentwm democrataidd oedd ar droed. Argymhellodd Comisiwn yr Arglwydd Richard fod angen diwygio pethau. Felly aed ati i basio deddf newydd, Deddf Llywodraeth

Cymru 2006. Diddymodd hon Gynulliad gweithredol Deddf 1998, gan osod yn ei lle Lywodraeth oedd yn cynnwys gweinidogion oedd yn dwyn yr enw hwnnw, ac ar wahân iddi Gynulliad democrataidd a feddai ar rymoedd deddfu cynradd. Ond tra bo deddfwrfeydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn medru deddfu'n gyffredinol, gyda rhai meysydd wedi eu neilltuo i San Steffan, dim ond am bynciau penodol mewn meysydd penodol yr oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn medru deddfu, gyda gwaharddiadau ar ddeddfu mewn rhai meysydd. Deddf grintach oedd hi ar yr olwg gyntaf. Er mwyn cael pŵer i ddeddfu ar bynciau newydd oddi mewn i'r meysydd datganoledig, roedd rhaid cael cydsyniad San Steffan, naill ai drwy ddeddfwriaeth newydd neu drwy'r broses boenus a gor-gymhleth o Orchymynion Cymhwysedd Deddfu (yr LCOs o amharchus goffawdwriaeth). Galluogodd yr hualau cyfansoddiadol hyn i elynion datganoli ymysg aelodau Seneddol Cymru rwystro trosglwyddo grymoedd a chwtogi'n sylweddol ar y grymoedd hynny a drosglwyddwyd. (Dyma un rheswm pam y mae Mesur y Gymraeg 2011 mor drybeilig o gymhleth. Roedd y gwleidyddion a'r gweision sifil yng Nghymru oedd yn gyfrifol amdani yn gweithio oddi mewn i'r fframwaith cul a roddwyd i'r Cynulliad gan yr LCO perthnasol.) Ond fe weithiodd yr ystrywiau yma yn erbyn y gwrth-ddatganolwyr, oherwydd bod modd dan ddeddf 2006, drwy refferendwm, gynyddu grymoedd deddfu'r Cynulliad, yn sylweddol ac yn wir hynny a wnaed yn 2011 gan roi i'r Cynulliad yr hyn a elwid ar y pryd yn 'bwerau deddfu llawn' oddi mewn i'r meysydd a ddatganolwyd. Ychydig wyddai penseiri Deddf 2006 ba mor llawn oedd y pwerau hynny.

Ond cyn dod at y pwynt hwnnw, mae angen holi'r cwestiwn pam y rhoddwyd y fath setliad i Gymru, sydd mor wahanol ei siâp i setliadau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Rwy'n siŵr eich bod wedi dyfalu'r ateb. Oherwydd yr angen i barhau ag EnglandandWales wrth gwrs. Ond y tro hwn, roedd y ddadl a ddefnyddiwyd ychydig yn fwy soffistigedig, ac o ganlyniad yn llawer mwy bregus, na'r un a ddefnyddiwyd i wrthod deddfwrfa i Gymru cyn deddf 1998. Amlinellir y ddadl ym memorandwm esboniadol Deddf 2006, lle dyfynnir memorandwm arall, sef memorandwm ar y cyd rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog Cymru ar y pryd (sef Peter Hain a Rhodri Morgan). Dyma ddywedwyd:

If the Assembly had the same general power to legislate as the Scottish Parliament then the consequences for the unity of the England and Wales legal jurisdiction would be considerable. The courts would, as time went by, be increasingly called upon to apply fundamentally different basic principles of law and rules of law of general application which were different in Wales from those which applied in England. The practical consequence would be the need for different systems of legal education, different sets of judges and lawyers and different courts. England and Wales would become separate legal jurisdictions.

Dyma ni'n gweld yn eglur fodolaeth cyfraith ac awdurdodaeth EnglandandWales fel rhywbeth creiddiol nad oes modd ei newid. Rhaid felly gadw'r *basic principles of law and rules of law of general application* sy'n rhan o'r gyfraith honno. Y ffordd i wneud hynny, awgrymir, yw drwy gyfyngu ar y pynciau hynny y câi'r Cynulliad ddeddfu amdanynt, fel yr oedd y bwriad yn Neddf 2006.

Tra gellid efallai gyfiawnhau dadl Hain a Morgan gyda golwg ar y drefn LCO, erbyn i'r Cynulliad gael 'pwerau llawn' roedd rhai sylwebwyr yng Nghymru yn amau pa mor gadarn oedd y ddadl hon, a'r amddiffyniad honedig i'r *basic principles of law and rules of law of general application*.

Maddeuwch i mi am funud am fynd i mewn i berfedd Deddf 2006. Wedi'r refferendwm yn 2011 roedd Adran 108(4) y Ddeddf yn rhoi grym i'r Cynulliad ddeddfu am fater (gyda bod cyfyngiadau eraill hefyd yn cael eu cadw) os

it relates to one or more of the subjects listed under any of the headings in Part 1 of Schedule 7 and does not fall within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule (whether or not under that heading or any of those headings).

Felly effaith hyn oedd creu dwy restr – y rhestr o bethau yr oedd Atodlen 7 yn caniatáu deddfu yn eu cylch a rhestr o bethau nad oedd modd deddfu yn eu cylch, y pynciau gwaharddedig. Er enghraifft gellid deddfu mewn cysylltiad ag amaeth, ond nid darlledu.

Y broblem o geisio gosod popeth mewn dwy restr yw hyn: oni bai bod un o'r rhestrau yn cynnwys y categori 'popeth arall', yna mae hi'n anorfod y bydd rhai pethau nad oes sôn amdanynt yn y naill restr na'r llall. Ac yn wir i chi, felly'r oedd hi dan Ddeddf 2006. Roedd yna bethau na chrybwyllwyd mohonynt o gwbl yn Atodlen 7 – y pynciau distaw,

Sylwch nawr 'te os gwnewch chi unwaith eto ar eiriad Adran 108(4), ac ar y ddau air ymddangosiadol ddiniwed hynny 'relates to'. Gellir deddfu am fater os *it relates to one or more of the subjects listed under any of the headings in Part 1 of Schedule 7*. Gellir deddfu felly am bwnc sy'n 'ymwneud â' phwnc a ganiateir, ond nid am bwnc gwaharddedig. Beth felly am y pynciau distaw? Os na waherddir mohonynt, ebe'r sylwebwyr Cymreig, oni ellir deddfu yn eu cylch, cyhyd ag y bo hynny hefyd yn ymwneud â phwnc a ganiateir? Onid yw hynny'n golygu felly fod y *basic principles of law and rules of law of general application* yr oedd hi mor bwysig i'w gwarchod rhag bod yn wahanol yng Nghymru yn agored i gael eu haddasu a'u newid yng nghyd-destun deddfu am y pynciau a ganiateir? Nonsens ebe sylwebwyr eraill, y tu allan i Gymru. Nid dyna oedd bwriad y Ddeddf o gwbl. Doedd bosib fod y ddeddf hon yn galluogi creu y fath hollt oddi mewn i gyfraith unedig EnglandandWales.

Daeth cyfle i dorri'r ddadl hon pan ddiddymodd Llywodraeth David Cameron, drwy Ddeddf, y Bwrdd Cyflogau Amaeth. Penderfynodd Llywodraeth Cymru osod bil gerbron y Cynulliad fyddai'n dad-wneud effaith y diddymiad hwnnw yng Nghymru, drwy greu fframwaith statudol Cymreig at ddiben rheoli cyflogau gweision fferm. Heriodd Llywodraeth Cameron hynny yn y Goruchaf Lys, gan ddadlau nad oedd o fewn gallu deddfu'r Cynulliad, gan mai ymwneud â chyflogaeth yr oedd y ddarpar-ddeddf, ac nad oedd y grym i ddeddfu am gyflogaeth wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad. Y broblem efo'r ddadl honno oedd nad oedd deddfu am gyflogaeth wedi ei wahardd chwaith. Pwnc distaw ydoedd, a barnodd y Goruchaf Lys fod y ffaith fod y

ddarpar-ddeddf yn ymwneud ag amaeth (pwnc datganoledig) yn ddigonol. Nid oedd yn faen tramgwydd ei bod hefyd yn ymwneud â phwnc distaw, cyflogaeth.<sup>4</sup>

Y gwir amdani wrth gwrs oedd bod y Cynulliad, fyth ers cael pwerau deddfu, wedi bod wrthi'n deddfu er mwyn gwneud *rules of law of general application* gwahanol iawn yng Nghymru, er enghraifft ym maes cyfraith Landlord a Tenant. Dyma, wedi'r cyfan, bwrpas cael deddfwrfa wahanol ar gyfer tiriogaeth wahanol.

Teg dweud bod dyfarniad y Goruchaf Lys wedi creu sioc ac arswyd enfawr yn San Steffan a Whitehall, yn arbennig ymysg selotiaid undod cyfrin EnglandandWales. Ar un olwg, mae modd deall y panig dirfodol hwn. Wedi'r cyfan, roedd y pynciau distaw yn cynnwys materion hanfodol i hunaniaeth y Deyrnas Gyfunol fel gwladwriaeth, megis y lluoedd arfog a mewnfudo.

Canlyniad hyn oll oedd tröedigaeth Ddamascaidd ar ran Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gefnogi rhoi trefn i Gymru oedd yn debycach i'r drefn yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, sef trefn pwerau cadw, y *reserved powers model*. Wedi'r cyfan, dan y model hwnnw, mae'r geiriau 'relates to' yn cael eu himpio ar yr hyn a gedwir yn ôl, yn hytrach na'r hyn sydd wedi ei ddatganoli. Felly a deud y gwir, er gwaethaf holl brotestiadau blaenorol Whitehall a San Steffan, canfyddwyd mewn fflach o weledigaeth mai hon oedd y ffordd orau o gadw undod cyfrin cyfraith Cymru a Lloegr – newid setliad Cymru i fod yn un lle cadwyd yn ôl bwerau fel un yr Alban.

Canlyniad hyn oedd dogfen oedd efallai'n isafbwynt (hyd yn hyn beth bynnag) hanes datganoli yng Nghymru, a phenllanw efallai yr ymgais i gynnal EnglandandWales, sef Bil Drafft Cymru 2015. Arfaethai hwn roi cyfundrefn debyg i'r Alban i Gymru, ond roedd cymaint o eithriadau a chyfyngiadau cymhleth ac anymarferol ynddo, fel y bu iddo gael ei feirniadu'n hallt.<sup>5</sup>

Ymysg y cyfyngiadau mwyaf tynn oedd rhai yn ymwneud â chyfraith droseddol a chyfraith breifat. Crëwyd profion cyfreithiol o ddilystod deddfau'r Cynulliad fyddai wedi ei gwneud hi'n amhosib bron iddo ddeddfu'n gall am y rhan fwyaf o bethau, oherwydd y pryder y byddai Llys barn yn medru taro lawr ei ddeddfau bron ar hap. Ym mharagraff 32 y sylwadau am ddarpariaethau'r Bil Drafft a gyhoeddwyd gyda'r Bil Drafft, fe gawn y datganiad canlynol:

Bwriadwyd y cyfyngiad mewn cysylltiad â chyfraith breifat ym mharagraff 3, ynghyd â'r cyfyngiad mewn cysylltiad â chyfraith trosedd ym mharagraff 4, er mwyn darparu lefel gyffredinol o amddiffyniad i system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr,

Felly dyma unwaith eto osod cynnal cyfundrefn gyfreithiol unedig EnglandandWales fel ystyriaeth drosgynnol, goruwch pob dim arall.

Tua'r un adeg, cafwyd tröedigaeth arall, os ychydig yn llai annisgwyl, sef penderfyniad ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cysyniad o awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Yn ei

---

<sup>4</sup> *Agricultural Sector (Wales) Bill - Reference by the Attorney General for England and Wales* [2014] UKSC 43.

<sup>5</sup> Gweler er enghraifft *Her a Chyfle: Bil Cymru Drafft 2015* (Chwefror 2016), sef adroddiad ar y cyd rhwng Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd a Constitution Unit UCL.



thystiolaeth i ail ran Comisiwn Silk, nododd Llywodraeth Cymru ei bod o blaid awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn yr hir dymor (er na welai reswm dros greu hynny nawr). Wedi cyhoeddi'r Bil Drafft aeth ymhellach gan gyhoeddi ei drafft ei hun o gymalau ar gyfer creu awdurdodaeth benodol i Gymru.

Ni ddaeth y Bil drafft yn fil, heb son am ddeddf. Daeth Brexit fel huddug i botas. Anghofwyd dros dro am gyfansoddiad Cymru. Er hynny, un o ganlyniadau'r refferendwm yn 2016 fu creu parllys deddfwriaethol yn San Steffan, a thrwy hynny ofod yn rhaglen ddeddfu Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Creodd hynny gyfle i ddeddfu unwaith eto am Gymru, cyfle y manteisiodd Whitehall arno er mwyn adennill pwerau a 'sefydlogi' EnglandandWales. Canlyniad hynny yw Deddf Cymru 2017, y daeth ei darpariaethau am bwerau deddfu'r Cynulliad i rym yn gynt eleni. Mae'r Ddeddf hon yn gweithio drwy ddiwygio Deddf 2006, gan osod darpariaethau newydd ynddi hi er mwyn newid y ffordd y mae hi'n gweithio. Gellir gweld hon i ryw raddau fel cyfaddawd ar ran Llywodraeth San Steffan, gan gamu'n ôl o wiriondeb bil drafft 2015. Ond serch hynny, o safbwynt diogelu EnglandandWales, mae'r ddeddf yn gadarn ac yn ddiamwys wrth gadw dan reolaeth San Steffan unrhyw beth a allasai beryglu undod tiriogaeth gyfreithiol EnglandandWales a'i sefydliadau. Mae deugain a phedair o dudalennau o faterion sydd wedi eu cadw nôl i San Steffan.

Ond beth am yr undod arall hwnnw, undod cyfraith *EnglandandWales*? Beth am y *basic principles of law and rules of law of general application* yr oedd y bil drafft wedi mynd i'r fath drafferth i'w diogelu? Wel, mae yno gyfyngiadau newydd yn neddf 2017 sy'n mynd i'r cyfeiriad hwnnw, gan lwyddo i gymhlethu yn hytrach na symleiddio'r setliad datganoli, ond y gwir amdani yw bod y deisyfiad amhosibl hwnnw, i ddiogelu undod cyfreithiol lle bo dwy ddeddfwrfa wahanol yn rhydd i ddeddfu'n wahanol, wedi ei ildio i bob pwrpas. Unwaith yr oedd Peter Hain a Rhodri Morgan wedi gollwng y ceffyl o'r stabal, doedd dim modd ei roi yn ei ôl. Dwi'n hoffi meddwl eu bod, efallai, wedi rhagweld hynny.

Felly'r realiti yw bod gennym gyfreithiau yng Nghymru sy'n wahanol iawn i gyfreithiau yn Lloegr, a rhai o'r rhain yn mynd i'r afael â materion moesol a chymdeithasol dyrys tu hwnt. Cymerwch, er enghraifft, y gyfraith am roi organau.

Dylid nodi hefyd wrth gwrs fod gwahaniaeth yn anorfod, nid yn unig oherwydd bod Cymru'n dymuno hynny, ond oherwydd hefyd fod Lloegr yn dymuno hynny, er enghraifft y diwygiadau a fu oddi mewn i'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, er mwyn cynyddu cystadleuaeth fasnachol yn y sector iechyd yn wlad honno.

Sut felly y gellir cynnal y cysyniad yma o gyfreithiau gwahanol oddi mewn i'r un diriogaeth gyfreithiol, oddi mewn i EnglandandWales? Yn dechnegol, y ffordd y gwneir hyn yw drwy ddyfais ddrafftio yn y ddeddfwriaeth. Fel yn neddf 2006, defnyddir y geiriau 'application' ac 'extent' a'r ymadroddion 'extend to' ac 'apply in relation to' er mwyn cynnal yr wrtheb hon. Mae 'extent' yn cyfeirio at y diriogaeth gyfreithiol. Felly dywedir am Ddeddf Seneddol ei bod yn 'extend to' EnglandandWales, neu'r Alban, neu Ogledd Iwerddon, neu unrhyw gyfuniad ohonynt, ond byth i Wales yn unig nac i England yn unig. Mae 'apply in relation to' yn cyfeirio (yn y cyd-destun hwn) at y rhan o'r diriogaeth gyfreithiol y mae'r ddeddf yn weithredol ynddi.

Felly gall deddf 'apply in' Cymru yn unig, neu Loegr yn unig neu yn wir Lanerchymedd yn unig. Mae peth tystiolaeth, fodd bynnag, mai ystryw cymharol ddiweddar yw'r ddyfais hon yn un o ddeddfau mwyaf arwyddocaol San Steffan, sef Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hon yn datgan bod rhan 1 'extends to England only' a rhan 2 'extends to Wales only'. Mae enghreifftiau eraill o 'extends to England only' neu ymadroddion tebyg, nifer ohonynt i'w cael mewn deddfwriaeth eilaidd. Os dynodi tiriogaeth gyfreithiol mae 'extent' i fod i'w wneud, bu cryn lithro ar ran y rhai oedd â'r cyfrifoldeb dros y drafftio.

Felly'r man cychwyn mewn theori yw na all y Cynulliad wneud deddf sydd yn 'extend to' unman ond EnglandandWales, ac mae ei bwerau i ddeddfu ar y cyfan wedi eu cyfyngu fel eu bod yn 'apply in relation to' Cymru yn unig. (Dywedaf 'ar y cyfan', gan fod modd i'r Cynulliad ddeddfu mewn modd sy'n weithredol yn Lloegr pan fo hynny'n fater atodol ac angenrheidiol er mwyn galluogi deddf Cynulliad neu ddeddf San Steffan ar fater datganoledig i weithio'n iawn. Dyma nodwedd sydd wedi parhau drwy gydol hanes y Cynulliad fel deddfwrfa.)

Mae dwy agwedd arall o ddeddf 2017 y dylem dalu sylw iddynt yng nghyd-destun y sgwrs hon, un gadarnhaol ac un llai felly.

Yn gyntaf, mae'r ddeddf yn datgan hyn, dan y pennawd 'Permanence of the Assembly and Welsh Government'

- (1) The Assembly established by Part 1 and the Welsh Government established by Part 2 are a permanent part of the United Kingdom's constitutional arrangements.
- (2) The purpose of this section is, with due regard to the other provisions of this Act, to signify the commitment of the Parliament and Government of the United Kingdom to the Assembly and the Welsh Government.
- (3) In view of that commitment it is declared that the Assembly and the Welsh Government are not to be abolished except on the basis of a decision of the people of Wales voting in a referendum.

Felly dyma orseddu i'r graddau eithaf y bo modd gwneud hynny o gwbl mewn deddf, fodolaeth ein sefydliadau llywodraethiant Cymreig a'n rheolaeth ni drostynt. Wrth gwrs, dan athrawiaeth sofraniaeth y Senedd, fe ellid diddymu'r adrannau hyn, ond maent yn ddatganiad go ddiamwys serch hynny o fodolaeth Cymru fel endid llywodraethol. Un ateb i 'When was Wales?' felly yw 'Nawr'.

Yr ail beth y carwn dynnu sylw ato yw adran fach od iawn sy'n son am 'Welsh law'. Dyma mae'n ei ddweud:

### **Recognition of Welsh law**

- (1) The law that applies in Wales includes a body of Welsh law made by the Assembly and the Welsh Ministers.

(2) The purpose of this section is, with due regard to the other provisions of this Act, to recognise the ability of the Assembly and the Welsh Ministers to make law forming part of the law of England and Wales.

Dyma'r math o ddrafftio sy'n rhoi enw drwg i gyfreithwyr. Nid yw'n dweud dim byd o werth o gwbl dim ond rhoi label ar ddeddfau a wneir yng Nghymru. Mae'r datganiad o bwrpas *to recognise the ability of the Assembly and the Welsh Ministers to make law forming part of the law of England and Wales* yn gyfan gwbl ddiangen. Rhyw fath o sopyn i'r Cerberus Cymreig ydyw – edrychwch bobl – MAE cyfraith Cymru yn bodoli – mae deddf Seneddol yn cydnabod hynny – ewch nôl i gysgu.

Yr wyf wedi canolbwyntio hyd yn hyn (am mai dyna yw fy mhriod faes) ar sut y mae deddfau a gwleidyddion San Steffan wedi mynd ati i ddiogelu undod EnglandandWales er gwaethaf y datblygiadau sydd wedi golygu yn gynyddol bod ac y bydd gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o ran llywodraethiant a deddfwriaeth. Mae hynny wedi arwain at bedair trefn ddatganoli wahanol i Gymru mewn llai nag ugain mlynedd, lle na bu ond un yn y bôn yn yr Alban. Mae hyn wedi arwain at gymhlethdod ac ansicrwydd cyfreithiol wrth i wahanol ystrywiau drafftio deddfwriaethol gael eu defnyddio er mwyn ceisio rheoli'r perygl o holli'r undod cyfriniol, hyd nes bod mynd i'r afael â phwerau deddfu ein Cynulliad weithiau fel ceisio chwarae gwyddbwyll mewn tri dimensiwn.

Ond mae oblygiadau eraill llai astrus a mwy uniongyrchol i gyndynrwydd San Steffan a Whitehall i ollwng gafael ar EnglandandWales. Oherwydd yr agwedd hon, mae'r holl bwerau gweithredol a deddfwriaethol, sy'n berthnasol i feysydd cyfiawnder a gweinyddu cyfiawnder yn gorffwys yn Llundain, a'r holl arian perthnasol dan reolaeth dwy o adrannau mwyaf canolfrydig Whitehall, sef y Swyddfa Gartref a'r Adran Gyfiawnder. Yn wir, gellir tybied mai awydd i gadw'r grymoedd hyn yn Llundain a'r adnoddau dan reolaeth Whitehall yw gwir gymhelliad rhai gwleidyddion dros y cyndynrwydd hwn.

Mae sawl canlyniad i hyn o safbwynt yr effaith ar Gymru. Dyma rai:

- Gwariwyd arian mawr ar garchar anferth y Berwyn. Ni wariwyd ceiniog ar ddarparu carchar i fenywod yng Nghymru;
- Mae arian enfawr wedi ei wario gan yr Adran Gyfiawnder ar brosiectau cyfrifiadurol soffistigedig, nifer ohonynt wedi eu gohirio neu eu canslo neu mewn trafferthion dybryd (gweler adroddiad diweddaraf yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau gyhoeddwyd fis diwethaf<sup>6</sup>). Ar y llaw arall, mae llysoedd yn cael eu cau a chymorth cyfreithiol i ddefnyddwyr y llysoedd wedi ei gwtogi yn arw. Canlyniad hyn yw bod cwmnïau cyfreithwyr yn ein trefi bychain yn ei chael hi'n gynyddol anoddach i barhau, gan greu cylch cythreulig o ran gallu pobl i gael mynediad at gyfiawnder;
- Mae rhan ganolog gan yr heddlu i'w chwarae ar y cyd ag asiantaethau eraill (datganoledig) megis y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn cynnal cymunedau, er enghraifft drwy atal trosedd a diogelu dioddefwyr. Er bod

---

<sup>6</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721978/IPA\\_Annual\\_Report\\_2018\\_2\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721978/IPA_Annual_Report_2018_2_.pdf)

tystiolaeth glodwiw o gydweithio, digwydd er gwaethaf yn hytrach nag oherwydd rhaniad cyfrifoldebau rhwng Llundain a Chaerdydd y mae. Mae cyllid heddlua dan reolaeth y Swyddfa Gartref, a'i phrif gonsŷrn yw'r math o dor cyfraith a geir yng nghanolfannau poblog enfawr Lloegr.

Yn fyr, ni all y sefydliadau hynny y mae Cymru yn brif gonsŷrn iddynt ddefnyddio'r adnoddau er mwyn lles Cymru yn y meysydd hynny sy'n ymwneud â chyfiawnder am nad yw'r adnoddau dan eu rheolaeth, ac am nad oes ganddynt y pwerau sydd eu hangen er mwyn defnyddio adnoddau prin eraill i'r pwrpas hwnnw.

Felly, ymhell o fod yn ymgais i wneud yn iawn am gam y gorffennol, prif fyrdwn yr alwad 'Bydded Cyfiawnder' yw rhoi i'n sefydliadau democrataidd Cymreig y grymoedd a'r adnoddau ym maes cyfiawnder sydd eu hangen er mwyn gallu gweithredu er lles Cymru.

Dylwn ychwanegu gair am Brexit. Un o ganlyniadau ymadawiad y Deyrnas Gyfunol â'r Gymuned Ewropeaidd – os digwydd hynny – fyddai ymadael hefyd â'i fframwaith cyfreithiol goruwchladol. Yng ngeiriau'r Athro Sionaidh Douglas-Scott:

Although it is not always acknowledged, EU membership provided an external support system for devolution. It insulated the devolved nations from a unitary UK-wide approach...something unlikely to continue after Brexit, when a unified approach is likely to dominate however unfavourable to devolved interests.<sup>7</sup>

Mae hyn yn arwyddo pa mor bwysig fydd hi i Gymru i allu dal ei thir wrth lunio'r trefniadau fydd yn weithredol oddi mewn i'r Deyrnas Gyfunol a rhwng ei thiriogaethau yn dilyn Brexit. Bydd parhad EnglandandWales fel tiriogaeth gyfreithiol yn gwneud bywyd yn anos, fel y gwnaeth erioed, i'r rhai hynny sy'n ceisio sicrhau y gorau dros Gymru.

Felly beth amdani? Beth yw'r rhagolygon o ran ymward ag EnglandandWales, neu i ni gael bod yn fwy graslon, o greu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru? Mae cyfreithwyr ac ysgolheigion y gyfraith wedi bod yn trafod hyn ers cychwyn datganoli. Yn 2004, mewn papur arloesol gan Jane Williams a Tim Jones o adran y gyfraith Prifysgol Abertawe, bathwyd yr ymadrodd 'emerging jurisdiction' i ddisgrifio'r hyn oedd yn dechrau digwydd yng Nghymru<sup>8</sup>. Dyma ymadrodd ddaeth yn boblogaidd iawn. I'r rhai oedd yn frwd dros ddatganoli, ar y naill law, roedd yn arwyddo cynydd, megis Winston Roddick a ddywedodd '[it] exudes energy and promise'<sup>9</sup>. Ar y llall, roedd yn darparu cysur i'r rhai llai brwd mai 'emerging' yn unig ydoedd. Ymysg gwleidyddion ac ymarferwyr cyfreithiol fel ei gilydd yr oedd rhyw geidwadaeth, rhyw barchedig ofn, ar waith oedd yn eu gwneud yn ochelgar rhag mynd i'r afael yn rhy daer â'r pwnc hwn. Rhowch i ni awdurdodaeth Gymreig, ond dim eto, oedd eu deisyfiad Awstinaidd. Ac roedd ganddynt bwynt. Byddai creu awdurdodaeth neilltuol i Gymru (a hefyd i Loegr wrth

---

<sup>7</sup> 'Without Map or Compass', *London Review of Books*, 24 Mai 2018.

<sup>8</sup> *Wales as a Jurisdiction* [2004] *Public Law* 78–101.

<sup>9</sup> 'The Development of Devolution and Legal Wales.' Darlith flynyddol y Ganolfan Materion Cyfreithiol Cymreig, Aberystwyth, Tachwedd 2008.

gwrs) yn brosiect fyddai'n gofyn cynllunio a gweithredu manwl. Ond nid yw hynny'n rheswm da dros beidio â chynllunio a gweithredu. Os rhywbeth, mae'n rheswm dros fynd ati i wneud hynny.

Yn hynny o beth, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos arweiniad. Erbyn hyn cynyddodd ei sêl dros osod yn ei le y darn hanfodol hwn ym mhôs jig-sô llywodraethiant Cymru. Rhwng y Bîl Drafft a Deddf 2017, cyhoeddodd ei drafft ei hun o ddeddf Seneddol San Steffan, y *Government and Laws in Wales Bill*, oedd ymysg pethau eraill yn gwahanu EnglandandWales yn ddwy diriogaeth gyfreithiol ar wahân, pob un a'i chyfraith ei hun. Gwnaeth hynny heb ddadelfennu'r gyfundrefn lysoedd, oedd i barhau mewn grym ar draws y ddwy diriogaeth hyd nes 2026 fan hwyraf. Yn 2026, os nad oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cymryd y pwerau priodol iddi hi ei hun cyn hynny, byddai honno hefydd yn dod yn fater datganoledig yng Nghymru.

Yn fwyaf diweddar, mae tystiolaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Thomas yn pwysleisio yn y modd cryfaf eto yr angen i fynd i'r afael ag EnglandandWales:

Drwy symud o'r model rhoi pwerau i'r model cadw pwerau, amlygwyd gwendidau'r setliad datganoli. Gwendidau yw'r rhain sy'n deillio'n bennaf o ddymuniad Llywodraeth y DU i 'ddiogelu' un awdurdodaeth gyfreithiol bresennol Cymru a Lloegr...

Hynodrwydd sy'n deillio o ddigwyddiadau bron i bum can mlynedd yn ôl yw'r diffyg awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Dylanwadwyd yn ormodol hefyd ar y materion sydd wedi'u datganoli i Gymru gan yr hyn a gafodd ei ddatganoli i Swyddfa Cymru i gychwyn ryw hanner can mlynedd yn ôl.

Mae hyd yn oed y proffesiwn cyfreithiol wedi dechrau troi ei sylw o ddifri at y pwnc. Prin erbyn hyn yw'r taranu o ran egwyddor yn erbyn y fath beth ag awdurdodaeth neilltuol i Gymru. Mae'r gwrthwynebiadau bellach yn tueddu i fod yn rhai mwy ymarferol. Mae rhai yn ddigon altrwistaidd ('bydd hyn yn gwneud bywyd yn anoddach i fy nghleientiaid') ond mae'r rhan fwyaf dipyn llai felly ('bydd hyn yn gwneud niwed i fy musnes'). Does gen i ddim mo'r amser heddiw, ysywaeth, i fynd i'r afael â'r dadleuon hyn (os oes gennych ddiddordeb, rwyf wedi darparu ymateb cryno mewn nodyn i'r Comisiwn<sup>10</sup>).

Y cwbl a wnaif wrth orffen yw cyfeirio unwaith eto at ysgrif R. T. Jenkins 'Yr Apêl at Hanes'. 'Pwy na wenodd' ebe Jenkins 'wrth weled ceidwadaeth cyfreithwyr?' gan ychwanegu 'Ond nid mater gwenu yw cofio mor gyndyn y maent wedi ymladd yn erbyn gwelliannau hollol resymol ac angenrheidiol'.<sup>11</sup>

Mae'n un peth fod cyfreithwyr Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a chwmslerau Seneddol Llundain wedi ymladd yn gyndyn er mwyn amddiffyn y ffenomen anachronistaidd EnglandandWales. Mae'n beth arall fod rhai ymarferwyr y gyfraith yng Nghymru yn gweld

---

<sup>10</sup> Gellir canfod fy sylwadau yma: <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-from-emyr-lewis-cy.pdf>

<sup>11</sup> *Yr Apêl at Hanes ac Ysgrifau Eraill* (Wrecsam, 1930), t. 162.

cyfundrefn neilltuol i Gymru fel bygythiad iddyn nhw. I'r gwrthwyneb, medde fi. Os oes raid meddwl yn y termau hynny, ystyriwch y cyfleoedd i'r proffesiwn y byddai awdurdodaeth ar wahân yn medru eu cynnig. Os caf i fod mor rhyfygus ag aralleirio un o linellau mawr Dic Jones (a thrwy hynny chwalu nid yn unig y ddelwedd ramantaidd ond y gynghanedd hefyd): Tra bo dynoliaeth fe fydd cyfreithwyr. Bydded cyfiawnder.